OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 342 (Cy. 96)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021

*Gwnaed - - - - 17 Mawrth 2021*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 74, 83 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**).

Mae gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (sy'n ymwneud ag ymgynghori) wedi eu bodloni.

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddi yn unol ag adran 174(4) a (5)(i) a (k) o'r Ddeddf honno.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio'r darpariaethau a grybwyllir ym mharagraff (3), i rym ar 1 Ebrill 2021.

(3) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Mehefin 2022—

(a) rheoliad 11;

(b) rheoliad 12;

(c) rheoliad 13;

(d) rheoliad 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â swyddogaethau a roddir i Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth gan reoliad 11, 12 neu 13.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

(**1**) 2021 dsc 1.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod Bannau Brycheiniog" ("*the Brecon Beacons member*") yw'r aelod a benodir o dan reoliad 8;

**[**[F1]mae i "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*") yr ystyr a roddir gan reoliad 9(1); **]**

ystyr "aelod cyngor" ("*council member*") yw person y cyfeirir ato yn rheoliad 7(1) neu berson a benodir o dan reoliad 7(3);

ystyr "Awdurdod Parc Cenedlaethol" ("*National Park Authority*") yw awdurdod yng Nghymru a sefydlir o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**2**);

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw—

(a) y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2022 (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "y flwyddyn ariannol gyntaf");

(b) wedi hynny, cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â 31 Mawrth;

ystyr "cyngor cyfansoddol" ("*constituent council*") yw—

(a) cyngor sir Ceredigion;

(b) cyngor sir Powys;

[F1]...

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw deddfiad pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir;

ystyr "rheolau sefydlog" ("*standing orders*") yw'r rheolau sefydlog a wneir o dan baragraff 8 o'r Atodlen;

ystyr "swyddogaethau cynllunio strategol" ("*strategic planning functions*") yw—

(a) swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(**3**) (gweler rheoliad 13), a

(b) unrhyw swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau hynny neu'n ffafriol iddynt.

**F1** Geiriau yn rhl. 2 wedi eu hamnewid a hepgorer (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

## RHAN 1

## Sefydlu ac ardal

### Sefydlu

**3.**—(1) Mae corff corfforedig o'r enw Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ("CBC y Canolbarth") wedi ei sefydlu.

(2) Mae gan CBC y Canolbarth y swyddogaethau—

(a) a roddir iddo gan y Rheoliadau hyn, a

(**2**) 1995 p. 25.
(**3**) 2004 p. 5. Mae Rhan 6 wedi ei diwygio gan Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1).

(b) a roddir iddo, a osodir arno neu a ddirprwyir iddo, gan unrhyw ddeddfiad arall.

(3) Mae'r swyddogaethau a roddir i CBC y Canolbarth gan y Rheoliadau hyn yn arferadwy mewn perthynas â'i ardal.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

**Ardal**

**4.** Mae ardal CBC y Canolbarth wedi ei ffurfio o ardaloedd y cynghorau cyfansoddol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 2

## Cyfansoddiad

**Cyfansoddiad**

**5.** Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad CBC y Canolbarth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 3

## Aelodaeth

**Aelodaeth**

**6.**—(1) Aelodau CBC y Canolbarth yw—

(a) y 2 aelod cyngor, [F2]...

(b) aelod Bannau Brycheiniog. **[**[F3], ac**]**

**[**[F4](c) unrhyw aelod cyfetholedig.**]**

(2) Mae gan yr aelodau hawl i bleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu gan CBC y Canolbarth **[**[F5], yn ddarostyngedig i reoliadau 8(2A) a 9(2)**]**.

[F6](3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(4) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn, ac mewn unrhyw ddeddfiad arall, at aelod o CBC y Canolbarth (sut bynnag y'u mynegir) yn cynnwys aelod Bannau Brycheiniog **[**[F7]ac unrhyw aelod cyfetholedig**]** oni bai bod—

(a) darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb, neu

(b) y cyd-destun yn mynnu fel arall.

**F2** Gair yn rhl. 6(1)(a) wedi ei hepgor (3.12.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(3)(a)(i)**

**F3** Gair yn rhl. 6(1)(b) wedi ei fewnosod (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(3)(a)(ii)**

**F4** Rhl. 6(1)(c) wedi ei fewnosod (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(3)(a)(iii)**

**F5** Geiriau yn rhl. 6(2) wedi eu mewnosod (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(3)(b)**

**F6** Rhl. 6(3) wedi ei hepgor (3.12.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(3)(c)**

**F7** Geiriau yn rhl. 6(4) wedi eu hamnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(3)(d)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Aelodau cyngor

**7.**—(1) Yn achos pob cyngor cyfansoddol—

(a) yr arweinydd gweithrediaeth, pan fo'r cyngor cyfansoddol yn gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet;

(b) y maer etholedig, pan fo'r cyngor cyfansoddol yn gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet,

yw'r aelod cyngor o CBC y Canolbarth.

(2) Pan fo aelod cyngor yn anabl i **[**[F8]weithredu fel aelod cyngor**]** am unrhyw gyfnod, rhaid i'r cyngor cyfansoddol y mae'n aelod ohono benodi aelod arall o'i weithrediaeth i **[**[F9]weithredu**]** ar ran yr aelod cyngor am y cyfnod hwnnw.

(3) Pan fo swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) yn wag o fewn cyngor cyfansoddol, rhaid i'r cyngor cyfansoddol benodi aelod arall o'i weithrediaeth yn aelod cyngor o CBC y Canolbarth hyd nes y bydd y swydd wag wedi ei llenwi.

**F8** Geiriau yn rhl. 7(2) wedi eu hamnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(4)(a)**

**F9** Gair yn rhl. 7(2) wedi ei amnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(4)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 7 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Aelod Bannau Brycheiniog

**8.**—(1) Rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ("yr Awdurdod") benodi deiliad swydd a grybwyllir ym mharagraff (2) yn aelod o CBC y Canolbarth ("aelod Bannau Brycheiniog").

(2) Y deiliaid swyddi sy'n gymwys i fod yn aelod Bannau Brycheiniog yw—

(a) cadeirydd yr Awdurdod,

(b) dirprwy gadeirydd yr Awdurdod, neu

(c) cadeirydd unrhyw bwyllgor sy'n gyfrifol am faterion cynllunio a all gael ei sefydlu gan yr Awdurdod.

**[**[F10](2A) Ni chaiff aelod Bannau Brycheiniog weithredu fel aelod ond mewn perthynas ag—

(a) y swyddogaethau a roddir i CBC y Canolbarth o dan reoliad 13;

(b) unrhyw swyddogaeth sydd gan CBC y Canolbarth sy'n ategol i'r swyddogaethau hynny neu'n gysylltiedig â hwy.

(2B) Ond caiff aelod Bannau Brycheiniog hefyd weithredu fel aelod mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth arall sydd gan CBC y Canolbarth—

(a) os yw'r aelodau cyngor ac aelod Bannau Brycheiniog yn cytuno, neu

(b) os caniateir i aelod Bannau Brycheiniog weithredu mewn perthynas â'r swyddogaeth honno, neu os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, yn rhinwedd darpariaeth ddatganedig yn y Rheoliadau hyn neu mewn unrhyw ddeddfiad arall.

(2C) Rhaid i gytundeb o dan baragraff (2B)(a) bennu'r telerau y caiff aelod Bannau Brycheiniog weithredu odanynt mewn perthynas â'r swyddogaeth o dan sylw, gan gynnwys pennu'r cyfnod pan fo aelod Bannau Brycheiniog i weithredu.**]**

(3) Pan fo aelod Bannau Brycheiniog yn anabl i **[**[F11]weithredu fel aelod**]** am unrhyw gyfnod, rhaid i'r Awdurdod benodi un o'r deiliaid swyddi eraill a grybwyllir ym mharagraff (2) i **[**[F12]weithredu**]** ar ran aelod Bannau Brycheiniog am y cyfnod hwnnw.

**F10** Rhl. 8(2A)-(2C) wedi ei fewnosod (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(5)(a)**
**F11** Geiriau yn rhl. 8(3) wedi eu hamnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(5)(b)(i)**
**F12** Gair yn rhl. 8(3) wedi ei amnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(5)(b)(ii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I8** Rhl. 8 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### [[F13]Aelodau cyfetholedig

**9.**—(1) Caiff CBC y Canolbarth gyfethol un neu ragor o unigolion i fod yn aelodau o CBC y Canolbarth ("aelod cyfetholedig") ar y telerau hynny y mae'n eu pennu.

(2) Rhaid i'r telerau hynny—

(a) pennu—

(i) swyddogaethau CBC y Canolbarth y caiff yr aelod cyfetholedig weithredu mewn perthynas â hwy fel aelod o'r CBC, a

(ii) unrhyw swyddogaeth sydd gan CBC y Canolbarth sy'n ategol i'r swyddogaethau hynny neu'n gysylltiedig â hwy;

(b) cael eu cytuno gan yr aelod cyfetholedig a'r aelodau eraill, ac

(c) cael eu nodi mewn cytundeb cyfethol.

(3) Pan fo gan aelod cyfetholedig, o dan baragraff (1), hawl i weithredu mewn perthynas ag—

(a) y swyddogaethau a roddir i CBC y Canolbarth o dan reoliad 13, a

(b) unrhyw swyddogaeth sydd gan CBC y Canolbarth sy'n ategol i'r swyddogaethau hynny neu'n gysylltiedig â hwy,

caiff aelod Bannau Brycheiniog weithredu fel aelod at ddibenion y paragraff hwnnw.

(4) Caiff aelod cyfetholedig ei gyfethol—

(a) am gyfnod a bennir yn y cytundeb cyfethol, neu

(b) hyd nes—

(i) y bydd yr aelod cyfetholedig yn ymddiswyddo o CBC y Canolbarth, neu

(ii) y bydd CBC y Canolbarth yn terfynu'r cyfetholiad.

(5) Mewn perthynas â chytundeb cyfethol—

(a) caniateir ei amrywio ar unrhyw adeg;

(b) rhaid iddo gael ei gyhoeddi'n electronig gan CBC y Canolbarth.**]**

**F13** Rhl. 9 wedi ei amnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(6)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Rhl. 9 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

**Rhannu swydd**

**10.** Pan fo swydd y cyfeirir ati yn—

(a) rheoliad 7(1), neu

(b) rheoliad 8(2),

yn cael ei rhannu gan 2 berson neu ragor, mae'r personau hynny i'w trin fel pe baent yn 1 person at ddibenion y Rheoliadau hyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Rhl. 10 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

## RHAN 4

### Swyddogaethau

PROSPECTIVE

**Llesiant economaidd**

**11.** Rhoddir y swyddogaeth llesiant economaidd i CBC y Canolbarth (gweler adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Rhl. 11 mewn grym ar 30.6.2022, gweler **rhl. 1(3)(a)**

PROSPECTIVE

**Trosglwyddo etc. y swyddogaeth o ddatblygu polisïau trafnidiaeth**

**12.**—(1) Mae'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**4**), mewn cysylltiad ag ardal pob cyngor cyfansoddol, i'w harfer gan CBC y Canolbarth, ac nid gan y cyngor cyfansoddol.

(2) Mae Rhan 2 o Ddeddf Trefnidiaeth 2000 yn gymwys mewn perthynas â CBC y Canolbarth a'i gynghorau cyfansoddol yn ddarostyngedig i'r addasiadau yn yr Atodlen i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021(**5**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Rhl. 12 mewn grym ar 30.6.2022, gweler **rhl. 1(3)(b)**

PROSPECTIVE

**Swyddogaethau cynllunio strategol**

**13.** Mae gan CBC y Canolbarth y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol (ac yn unol â hynny mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gymwys i CBC y Canolbarth (gweler yn enwedig adrannau 60K i 60N o'r Ddeddf honno)).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Rhl. 13 mewn grym ar 30.6.2022, gweler **rhl. 1(3)(c)**

**Is-bwerau**

**14.**—(1) Caniateir i CBC y Canolbarth wneud unrhyw beth—

(a) i hwyluso, neu

(b) sy'n gysylltiedig â, neu'n ffafriol i,

arfer ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddeddfiad arall.

(2) Mae'r pethau y caniateir eu gwneud o dan baragraff (1) yn cynnwys—

(a) mynd i wariant;

(b) codi ffioedd;

(c) caffael neu waredu eiddo neu hawliau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Rhl. 14 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

(**4**) 2000 p. 38.
(**5**) O.S. 2021/328 (Cy. 86).

### [F14 Cyfyngiad ar gyflawni swyddogaethau gan bersonau eraill

**15.** Nid yw rheoliad 13 o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau) yn gymwys i—

(a) cymeradwyo polisi trafnidiaeth, neu ddiwygio polisi o’r fath a ddatblygwyd yn rhinwedd rheoliad 12(1) o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000;

(b) y gweithredoedd a ganlyn sy’n gysylltiedig â llunio cynllun datblygu strategol, neu ddiwygio cynllun, o dan reoliad 13—

(i) mabwysiadu cytundeb cyflawni, neu ddiwygio cytundeb o’r fath (gweler rheoliad 11(2) ac (8) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 (“y Rheoliadau CDS”));

(ii) cymeradwyo dogfennau cynigion cyn-adneuo a datganiad o faterion cyn-adneuo (gweler rheoliadau 17 a 18 o’r Rheoliadau CDS);

(iii) cymeradwyo adroddiad ymgynghori cychwynnol, dogfen cynigion yr CDS a datganiad o faterion adneuo (gweler rheoliad 20 o’r Rheoliadau CDS);

(iv) cymeradwyo dogfennau i’w hanfon at Weinidogion Cymru o dan adran 64(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004;

(v) tynnu cynllun datblygu strategol yn ôl o dan adran 66A(2) o’r Ddeddf honno;

(vi) mabwysiadu cynllun datblygu strategol o dan adran 60M(9)(a) o’r Ddeddf honno;

(vii) cymeradwyo adroddiad monitro blynyddol sydd i’w wneud o dan adran 76(1) o’r Ddeddf honno;

(viii) cymeradwyo adroddiad adolygiad o gynllun datblygu strategol sydd i’w wneud o dan adran 69(2) o’r Ddeddf honno;

(c) cytuno ar gyfrifiadau o ofynion cyllideb neu gyfrifiadau diwygiedig o dan reoliad 16(6)(b) a (9).**]**

**F14** Rhl. 15 wedi ei amnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(7)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Rhl. 15 mewn grym ar 30.6.2022 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(3)(d)**

**I16** Rhl. 15 mewn grym ar 1.4.2021 (heblaw fel y crybwyllwyd yn rhl. 1(3)(d)), gweler rhl. 1(2)

## RHAN 5

## Ariannu

### Cyfrifo gofynion cyllideb

**16.**—(1) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol rhaid i CBC y Canolbarth gyfrifo’r symiau a ddisgrifir ym mharagraff (2) sydd i’w priodoli i—

(a) ei swyddogaethau cynllunio strategol (gan gynnwys cyfran briodol o gostau gweinyddu a gorbenion eraill), a

(b) ei swyddogaethau eraill.

(2) Y symiau y mae rhaid i’r CBC eu cyfrifo yw—

(a) y swm y mae'r CBC yn amcangyfrif y bydd yn ei wario mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol wrth arfer ei swyddogaethau (gan gynnwys gwariant ar weinyddu a gorbenion eraill);

(b) y swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn briodol ei godi ar gyfer cronfa ariannol wrth gefn mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol;

(c) y swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn briodol ei gadw fel cronfa wrth gefn i dalu am y gwariant y mae'n ystyried yr eir iddo mewn cysylltiad â blynyddoedd ariannol i ddod;

(d) unrhyw swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn angenrheidiol i dalu unrhyw rwymedigaethau sydd heb eu talu mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn ariannol gynharach.

(3) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i CBC y Canolbarth hefyd gyfrifo cyfanswm cyfanredol unrhyw symiau y mae'n amcangyfrif y bydd yn eu cael o ffynonellau eraill ac eithrio'r cynghorau cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd i'w priodoli i—

(a) ei swyddogaethau cynllunio strategol, a

(b) ei swyddogaethau eraill.

(4) Pan fo cyfanswm y symiau a gyfrifir ar gyfer blwyddyn ariannol o dan baragraff (1)(a) yn fwy na'r swm a gyfrifir ar gyfer y flwyddyn honno o dan baragraff (3)(a), y swm ychwanegol hwnnw yw gofyniad cyllideb cynllunio strategol CBC y Canolbarth ar gyfer y flwyddyn ariannol.

(5) Pan fo cyfanswm y symiau a gyfrifir ar gyfer blwyddyn ariannol o dan baragraff (1)(b) yn fwy na'r swm a gyfrifir ar gyfer y flwyddyn honno o dan baragraff (3)(b), y swm ychwanegol hwnnw yw gofyniad cyllideb cyffredinol CBC y Canolbarth ar gyfer y flwyddyn ariannol.

(6) Rhaid i CBC y Canolbarth —

(a) cynnal y cyfrifiadau o dan baragraffau (1) a (3), a

(b) cytuno ar y cyfrifiadau hynny mewn cyfarfod,

yn ddim hwyrach na 31 Ionawr ym mhob blwyddyn ariannol flaenorol.

(7) Mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol gyntaf, mae paragraff (6) yn gymwys fel pe bai "31 Ionawr 2022" wedi ei roi yn lle "31 Ionawr ym mhob blwyddyn ariannol flaenorol".

(8) Caiff CBC y Canolbarth ddiwygio'r cyfrifiadau a gynhelir o dan baragraffau (1) a (3) ar unrhyw adeg cyn diwedd y flwyddyn ariannol y maent yn ymwneud â hi a chaniateir diwygio gofyniad cyllideb cyffredinol, neu ofyniad cyllideb cynllunio strategol, CBC y Canolbarth o ganlyniad i hynny.

(9) Rhaid cytuno ar unrhyw gyfrifiadau diwygiedig mewn cyfarfod o CBC y Canolbarth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Rhl. 16 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

## Ariannu gofyniad cyllideb

**17.**—(1) Rhaid i ofyniad cyllideb cyffredinol CBC y Canolbarth gael ei dalu i CBC y Canolbarth gan y cynghorau cyfansoddol, ac mae'r gyfran o'r swm hwnnw sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol i'w phennu drwy gytundeb unfrydol yr aelodau cyngor.

(2) Rhaid i ofyniad cyllideb cynllunio strategol CBC Canolbarth gael ei dalu i CBC y Canolbarth gan y cynghorau cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'r gyfran o'r swm hwnnw sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol a chan yr Awdurdod i'w phennu drwy gytundeb unfrydol **[**[F15]yr aelodau cyngor ac aelod Bannau Brycheiniog**]**.

(3) Pan na fo'n bosibl dod i gytundeb o ran y cyfrannau sy'n daladwy o dan baragraff (1) neu (2), caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd bennu'r gyfran sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol neu bob cyngor cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

(4) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ofyniad cyllideb cyffredinol, neu ofyniad cyllideb cynllunio strategol, a ddiwygiwyd o dan baragraff (8) o reoliad 16 fel y mae'n gymwys i ofyniad cyllideb a bennwyd yn wreiddiol o dan y rheoliad hwnnw.

**F15** Geiriau yn rhl. 17(2) wedi eu hamnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(8)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Rhl. 17 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

17 Mawrth 2021

## YR ATODLEN

Rheoliad 5

Cyfansoddiad

# RHAN 1

## Gweithdrefn, cyfarfodydd a phleidleisio

### Cadeirio cyfarfodydd

**1.** Rhaid i gyfarfodydd CBC y Canolbarth gael eu cadeirio gan—

(a) y cadeirydd a benodir o dan baragraff 2, neu

(b) os yw'r cadeirydd yn absennol, yr is-gadeirydd a benodir o dan y paragraff hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. para. 1 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Penodi cadeirydd ac is-gadeirydd

**2.**—(1) Yng nghyfarfod cyntaf CBC y Canolbarth—

(a) penodi cadeirydd ac is-gadeirydd fydd y busnes cyntaf a drafodir, a

(b) rhaid i'r aelod cyngor ar gyfer cyngor sir Ceredigion gadeirio'r cyfarfod hyd nes y penodir y cadeirydd (ac mae'r cadeirydd i gadeirio gweddill y cyfarfod).

(2) Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol o CBC y Canolbarth —

(a) rhaid cadarnhau bod penodiad y cadeirydd a'r is-gadeirydd yn parhau, neu

(b) rhaid penodi cadeirydd newydd, is-gadeirydd, neu'r ddau.

(3) Rhaid i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd gael eu penodi o blith yr aelodau cyngor.

(4) Rhaid i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd gael eu penodi, neu eu cadarnhau gan—

(a) yr aelodau cyngor, a

(b) unrhyw **[**[F16]aelodau eraill**]** sydd â hawl i bleidleisio ar y mater.

(5) Os yw swydd cadeirydd neu is-gadeirydd yn dod yn wag, rhaid penodi i lenwi'r swydd wag yn y cyfarfod cyntaf CBC y Canolbarth a gynhelir ar ôl i'r swydd ddod yn wag.

(6) Os yw swydd y cadeirydd yn wag, caniateir i'r is-gadeirydd gyflawni swyddogaethau cadeirydd hyd nes y llenwir y swydd wag.

(7) Er gwaethaf paragraff 1, pan fo swyddi'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn wag ar yr un pryd, rhaid i'r cyfarfod y cyfeirir ato yn is-baragraff (5) gael ei gadeirio, hyd nes y llenwir un o'r swyddi gwag, gan aelod cyngor a bennir gan gyngor sir Ceredigion.

**F16** Geiriau yn Atod. para. 2(4)(b) wedi eu hamnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(9)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Atod. para. 2 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Cyfarfodydd cyffredinol blynyddol

**3.** Rhaid i CBC y Canolbarth gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol ar ddyddiad a bennir gan y CBC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Atod. para. 3 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Cyfarfodydd eraill

**4.**—(1) Caiff CBC y Canolbarth gynnal cyfarfodydd eraill ar ddyddiadau a bennir yn y rheolau sefydlog.

(2) Caniateir i gyfarfod eithriadol o CBC y Canolbarth gael ei alw ar unrhyw adeg gan unrhyw berson sydd â hawl i bleidleisio ar fater sydd i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Atod. para. 4 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Cworwm

**5.** Nid oes unrhyw fusnes i'w drafod mewn perthynas â mater sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o CBC y Canolbarth onid yw—

(a) yn achos mater sydd i'w benderfynu o dan—

(i) rheoliad 17, neu

(ii) paragraff 7 o'r Atodlen hon,

yr holl bersonau sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad yn bresennol, a

(b) mewn unrhyw achos arall, dim llai na 70% o'r personau sydd â hawl i bleidleisio yn bresennol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Atod. para. 5 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Y weithdrefn bleidleisio

**6.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3) o'r paragraff hwn a pharagraff 7 o'r Atodlen hon, mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o CBC y Canolbarth—

**[**[F17](a) ni chaiff nifer yr aelodau cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio fod yn fwy na nifer yr aelodau eraill sydd â hawl i bleidleisio,**]**

(b) un bleidlais sydd gan bob person sydd â hawl i bleidleisio,

(c) mae'r mater i'w benderfynu drwy fwyafrif syml, a

(d) os yw nifer y pleidleisiau yn gyfartal nid yw'r mater yn cael ei dderbyn.

(2) Yn achos mater sydd i'w benderfynu o dan—

(a) rheoliad 17, neu

(b) paragraff 7 o'r Atodlen hon,

nid yw is-baragraff (1)(c) a (d) yn gymwys.

(3) Pan fo'r mater sydd i'w benderfynu yn ymwneud â swyddogaethau cynllunio strategol, nid yw is-baragraff 1(d) yn gymwys a'r cadeirydd (neu'r is-gadeirydd os yw'n cadeirio) sydd â'r bleidlais fwrw.

**F17** Atod. para. 6(1)(a) wedi ei amnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(10)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Atod. para. 6 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Mabwysiadu gweithdrefn bleidleisio wahanol

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i ofynion y paragraff hwn, caiff CBC y Canolbarth fabwysiadu system bleidleisio wahanol mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu ganddo.

(2) Ond ni chaiff CBC y Canolbarth fabwysiadu gweithdrefn wahanol mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu o dan—

(a) rheoliad 17, neu

(b) y paragraff hwn.

(3) Mewn perthynas â gweithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn—

(a) rhaid iddi bennu pa rai o blith y materion sydd i'w penderfynu gan CBC y Canolbarth y mae'n gymwys iddynt;

(b) ni chaiff addasu effaith paragraff 6(3).

[F18(4) Rhaid i weithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gael ei mabwysiadu drwy gytundeb unfrydol yr aelodau sydd â hawl i bleidleisio ar fabwysiadu'r weithdrefn.]

(5) Rhaid i unrhyw weithdrefn bleidleisio wahanol a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gael ei nodi yn y rheolau sefydlog.

**F18** Atod. para. 7(4) wedi ei amnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(11)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Atod. para. 7 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Rheolau sefydlog

**8.**—(1) Rhaid i CBC y Canolbarth wneud rheolau sefydlog ar gyfer rheoleiddio ei drafodion a'i fusnes i'r graddau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan y Rheoliadau hyn nac unrhyw ddeddfiad arall.

(2) Caniateir amrywio'r rheolau sefydlog neu caniateir eu dirymu a'u hamnewid.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** Atod. para. 8 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 2

## Staff

### Cyffredinol

**9.**—**[**[F19](1)**]** Caiff CBC y Canolbarth wneud unrhyw drefniadau ar gyfer staffio y mae'n ystyried eu bod yn briodol yn ddarostyngedig i—

(a) darpariaethau'r Rhan hon o'r Atodlen hon, a

(b) paragraff 2 o Atodlen 1 i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021(**6**).

**[**[F20](2) Rhaid i CBC y Canolbarth sicrhau bod trefniadau a wneir o dan is-baragraff (1) yn rhai sy'n angenrheidiol er mwyn i CBC y Canolbarth gyflawni ei swyddogaethau'n briodol.**]**

**F19** Atod. para. 9(1): Atod. para. 9 wedi ei ailrifo fel Atod. para 9(1) (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(12)(a)**

**F20** Atod. para. 9(2) wedi ei fewnosod (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(12)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Atod. para. 9 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Telerau ac amodau

**10.**—(1) Pan fo CBC y Canolbarth yn penodi staff o dan baragraff 9, maent i'w penodi o dan delerau ac amodau (gan gynnwys telerau ac amodau o ran taliadau cydnabyddiaeth) sy'n sylweddol debyg i delerau ac amodau swyddogion yn un o'r cynghorau cyfansoddol sy'n ymgymryd â dyletswyddau a bennir yn rhesymol gymharol gan CBC y Canolbarth.

**[**[F21](2) Ond o ran is-baragraff (1)—

(a) mae'n ddarostyngedig i adran 41 o Ddeddf Lleoliaeth 2011, a

(b) nid yw'n atal CBC y Canolbarth rhag addasu telerau ac amodau staff y mae'n eu penodi os yw hynny'n ofynnol yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.**]**

**F21** Atod. para. 10(2) wedi ei amnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(13)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I28** Atod. para. 10 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Staff o awdurdodau eraill

**11.**—(1) Caniateir i awdurdod Cymreig datganoledig (o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006(**7**)) ymrwymo i gytundeb gyda CBC y Canolbarth ar gyfer rhoi staff yr awdurdod at ddefnydd CBC y Canolbarth at ddibenion arfer ei swyddogaethau, o dan unrhyw delerau a ddarperir gan y cytundeb.

(**6**) O.S. 2021/327 (Cy. 85).
(**7**) 2006 p. 32. Gweler adran 157A ac Atodlen 9A fel y'u mewnosodwyd gan adran 4 o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ac Atodlen 3 iddi.

(2) Pan fo aelod o staff awdurdod Cymreig datganoledig yn cael ei roi at ddefnydd CBC y Canolbarth yn rhinwedd cytundeb o dan is-baragraff (1), mae'r aelod o staff i'w drin fel aelod o staff CBC y Canolbarth at ddibenion—

(a) y Rheoliadau hyn;

(b) paragraff 2 o Atodlen 1 i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021;

(c) unrhyw ddeddfiad arall sy'n ymwneud â gweinyddu CBC y Canolbarth neu ag arfer ei swyddogaethau.

**[**[F22](3) Ond, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb mewn unrhyw ddeddfiad arall, at ddibenion blwydd-daliadau mae gwasanaeth a ddarperir gan aelod o staff awdurdod Cymreig datganoledig sydd wedi ei roi at ddefnydd CBC y Canolbarth yn rhinwedd cytundeb o'r fath yn wasanaeth a ddarperir i'r awdurdod.**]**

**F22** Atod. para. 11(3) wedi ei fewnosod (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(14)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I29** Atod. para. 11 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Rhoi staff at ddefnydd awdurdodau eraill

**12.**—(1) Caiff CBC y Canolbarth ymrwymo i gytundeb gydag—

(a) cyd-bwyllgor corfforedig arall (o fewn yr ystyr a roddir gan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021);

(b) awdurdod Cymreig datganoledig arall (o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006),

ar gyfer rhoi staff CBC y Canolbarth at ddefnydd y pwyllgor arall neu'r awdurdod arall at ddibenion swyddogaethau'r pwyllgor neu'r awdurdod hwnnw, o dan delerau a ddarperir gan y cytundeb.

(2) Pan fo aelod o staff CBC y Canolbarth yn cael ei roi at ddefnydd corff arall yn rhinwedd cytundeb o dan is-baragraff (1)—

(a) at ddibenion blwydd-daliadau, mae gwasanaeth a ddarperir gan yr aelod o staff yn wasanaeth a ddarperir i CBC y Canolbarth, a

(b) at ddibenion unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â gweinyddu'r awdurdod Cymreig datganoledig arall neu arfer ei swyddogaethau, mae'r aelod o staff i'w drin fel aelod o staff yr awdurdod hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I30** Atod. para. 12 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Ymgynghori â staff ynghylch cytundebau o dan baragraff 11 neu 12

**13.** Ni chaniateir ymrwymo i unrhyw gytundeb o dan baragraff 11(1) neu 12(1) oni bai yr ymgynghorir â phob aelod o staff y mae'r cytundeb yn ymwneud â hwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** Atod. para. 13 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Trosglwyddo staff

**14.** Pan fo aelod o staff a benodir gan CBC y Canolbarth wedi ei drosglwyddo i'r CBC o gyngor cyfansoddol, mae darpariaethau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006(**8**) ac eithrio rheoliadau 4(6) a 10 yn gymwys i'r trosglwyddiad, pa un a yw'n drosglwyddiad perthnasol at ddibenion y rheoliadau hynny ai peidio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I32** Atod. para. 14 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 3

## Is-bwyllgorau

### Is-bwyllgorau

[F23]**15.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**F23** Atod. para. 15 wedi ei hepgor (3.12.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(15)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I33** Atod. para. 15 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

### Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**16.**—(1) Rhaid i CBC y Canolbarth sefydlu is-bwyllgor (o'r enw yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio) i—

(a) adolygu materion ariannol CBC y Canolbarth a chraffu arnynt;

(b) llunio adroddiadau a chyflwyno argymhellion mewn perthynas â materion ariannol CBC y Canolbarth;

(c) adolygu ac asesu trefniadau CBC y Canolbarth ar gyfer rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol;

(d) llunio adroddiadau a chyflwyno argymhellion i CBC y Canolbarth ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;

(e) goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol CBC y Canolbarth;

(f) adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a lunnir gan CBC y Canolbarth;

(g) arfer unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan CBC y Canolbarth.

(2) Pan fydd yn penodi aelodau o'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio, rhaid i CBC y Canolbarth sicrhau—

(**8**) O.S. 2006/246.

(a) bod o leiaf un aelod o'r is-bwyllgor yn berson nad yw'n aelod o gyngor sir, nac o gyngor bwrdeistref sirol, yng Nghymru,

(b) y cyfansoddir o leiaf ddau draean o'r aelodaeth [F24o] aelodau o'r cynghorau cyfansoddol (ond nid aelodau o weithrediaethau'r cynghorau cyfansoddol), ac

[F25(c) nad yw unrhyw un o aelodau o'r is-bwyllgor—

(i) yn aelod cyngor,

(ii) yn aelod cyfetholedig,

(iii) yn aelod o is-bwyllgor arall i CBC y Canolbarth, neu

(iv) yn aelod o weithrediaethau'r cynghorau cyfansoddol.]

F26(3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(4) Ni chaiff yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio arfer ei swyddogaethau os yw aelodaeth yr is-bwyllgor yn torri gofynion is-baragraff (2).

(5) Rhaid i'r rheolau sefydlog gynnwys darpariaeth sy'n rheoleiddio dull yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio o arfer ei swyddogaethau.

**F24** Gair yn Atod. para. 16(2)(b) wedi ei amnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(16)(b)**

**F25** Atod. para. 16(2)(c) wedi ei amnewid (3.12.2021) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(16)(c)**

**F26** Atod. para. 16(3) wedi ei hepgor (3.12.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1349), rhlau. 1(2), **34(16)(d)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I34** Atod. para. 16 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(2)**

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i sefydlu cyrff corfforedig a elwir yn gyd-bwyllgorau corfforedig. Sefydlir y cyrff hyn er mwyn arfer swyddogaethau penodol a bennir yn y rheoliadau sy'n eu sefydlu, mewn perthynas ag ardal sy'n cynnwys ardaloedd yr awdurdodau lleol sy'n ffurfio aelodaeth y cyd-bwyllgor corfforedig (yn ogystal â hynny, pan roddir swyddogaethau mewn perthynas â chynllunio strategol i gyd-bwyllgor corfforedig, caiff awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn aelod o'r pwyllgor hefyd).

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu corff corfforedig a elwir yn Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth, ac yn pennu'r swyddogaethau a ganlyn fel rhai sy'n arferadwy gan y corff hwn—

(1) y swyddogaeth llesiant economaidd (gweler adran 76 o Ddeddf 2021),

(2) datblygu polisïau trafnidiaeth a llunio cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol o dan Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, a

(3) llunio cynlluniau datblygu strategol (gweler Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004).

Mae 5 Rhan i'r Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 1 yn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth, a'i ardal, ac yn diffinio rhai termau allweddol.

Mae Rhan 2 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Rheoliadau. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys trefniadau cyfansoddiadol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth, gan gynnwys trefniadau ynghylch cynnal a chadeirio cyfarfodydd, pleidleisio ar benderfyniadau, sefydlu is-bwyllgorau a staffio.

Mae Rhan 3 yn nodi aelodaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth. Yn unol â'r Rhan hon, bydd y corff wedi ei ffurfio o 2 aelod cyngor, un ar gyfer pob awdurdod lleol yn y canolbarth, ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, nad oes ganddo ond hawl i bleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â llunio cynlluniau datblygu strategol. Caiff y Pwyllgor gyfethol personau eraill (a elwir yn "cyfranogwyr cyfetholedig") i gyfranogi ym musnes y Pwyllgor a chaiff roi hawliau pleidleisio i gyfranogwyr cyfetholedig.

Mae Rhan 4 yn pennu y caniateir arfer y 3 swyddogaeth a grybwyllir uchod gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth ac y caiff y Pwyllgor wneud pethau eraill i hwyluso arfer y swyddogaethau hynny neu bethau sy'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau hynny neu'n ffafriol iddynt.

Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth i gyfrifo ei gyllideb a sut y mae i'w ariannu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Instrument yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Sch. para. 7(3A) inserted by S.I. 2022/372 reg. 40(8)
- Sch. para. 16(1)(da)(db) inserted by S.I. 2022/797 reg. 17(2)(b)
- Sch. para. 16(1A) inserted by S.I. 2022/797 reg. 17(2)(c)
- Sch. para. 16(2A) inserted by S.I. 2022/797 reg. 17(2)(g)
- Sch. para. 16(2)(c)(iv) and word omitted by S.I. 2022/797 reg. 17(2)(f)
- Sch. para. 16(1)(g) word inserted by S.I. 2021/1349 reg. 34(16)(a)
- Sch. para. 16(1)(c) words inserted by S.I. 2022/797 reg. 17(2)(a)
- Sch. para. 16(2)(a) words substituted by S.I. 2022/797 reg. 17(2)(d)
- Sch. para. 16(2)(b) words substituted by S.I. 2022/797 reg. 17(2)(e)
- reg. 1(3)(d) word omitted by S.I. 2022/372 reg. 40(2)
- reg. 2 words inserted by S.I. 2022/372 reg. 40(3)(c)
- reg. 2 words omitted by S.I. 2022/372 reg. 40(3)(b)
- reg. 2 words substituted by S.I. 2022/372 reg. 40(3)(a)
- reg. 7(2)-(2C) substituted for reg. 7(2) by S.I. 2022/372 reg. 5(2)
- reg. 8(2B)(a) word inserted by S.I. 2022/372 reg. 40(4)
- reg. 8(3)-(6) substituted for reg. 8(3) by S.I. 2022/372 reg. 5(3)
- reg. 9(2)(b) words inserted by S.I. 2022/372 reg. 40(5)
- reg. 9A inserted by S.I. 2022/372 reg. 40(6)
- reg. 11 coming into force by S.I. 2021/342 reg. 1(3)(a)
- reg. 12 coming into force by S.I. 2021/342 reg. 1(3)(b)
- reg. 13 coming into force by S.I. 2021/342 reg. 1(3)(c)
- reg. 15 coming into force by S.I. 2021/342 reg. 1(3)(d)
- reg. 17A inserted by S.I. 2022/372 reg. 15(1)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- Sch. para. 5(a)(i)(ia) substituted for Sch. para. 5(a)(i) by S.I. 2022/372 reg. 40(7)